# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mawrth 12fed 2024 yn Neuadd Parc. Yn bresennol oedd Jean Roberts (cadeiryddes), Arwel Davies, Geraint Jones, Euros Puw, Gwynfryn Williams, Rhys Jones a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Huw Charles, Rhys Richards a'r Cyng. Elwyn Edwards.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Chwefror a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Nodwyd y buddiant gyda'r ceisiadau cynllunio ac ariannol perthnasol isod.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Cynllun Bioamrywiaeth.
Cytunwyd i gyfrannu'r £50 o'r gyllideb i Garn Bach Tryweryn cael plannu coed afalau yn eu safle newydd.

b) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Roedd Arolygwr Priffyrdd wedi trefnu i'r peiriant ysgubo fynd heibio Nodyn y Nant i bentref Parc ac yn ei flaen i Wern Goch.
ii) Roedd yr Arolygwr Priffyrdd am gadw llygad ar y ffôs ger Pant Neuadd, Parc.
iii) Roedd cyfarwyddyd wedi ei roi i'r gweithlu i ymgymryd â'r gwaith o glirio'r ffosydd rhwng grid Talybont lawr i Tŷ Du, Parc
iv) Roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi bod i asesu'r coed rhwng pentref Parc a Cyffdy a bydd yn cadw llygad ar gyflwr y canghennau.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Amrywiol.
i) Swyddfa'r Cabinet - Cynllun Portread Ei Fawrhydi y Brenin.
ii) Cyfeillion Llŷn - Cynllun Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol – cytunwyd i gydweithio ar unrhyw gynllun a fyddai yn cael ei greu ar gyfer Penllyn.
iii) Papur newydd Y Cyfnod - Ail lansio'r papur wythnosol. Cytunwyd i anfon y cofnodion misol i'r papur.
iv) Cornerstone – cyfarfod ar y 10fed o Ebrill i drafod cynlluniau ar gyfer y rhwydwaith wledig.
v) Cwmni Pum Plwy Penllyn – Ymgynghoriad trafnidiaeth gymunedol, gwahoddiad i gyfarfod cyhoeddus ar y 14/03/24.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
Ni chyflwynwyd unrhyw gais.

**vi) Materion Ariannol**
a) Adroddiad Ariannol i ddiwedd Chwefror (monitro derbyniadau a thaliadau).
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Chwefror a chafwyd yn gywir.

b) Llywodraeth Cymru – Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
i) Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - nodwyd argymhellion a'r oblygiadau i'r Cyngor a'r cynghorwyr. Trafodwyd y cydnabyddiaeth ddewisol a chytunwyd nad oedd y cynghorwyr yn dymuno hawlio'r lwfans presenoldeb na unrhyw daliadau ar gyfer cyflawni'r swyddi Cadeirydd, Is-Gadeirydd ac nid oedd unrhyw gyfrifoldebau penodol amlwg iddynt. Cytunwyd y dylid ad-dalu'r cynghorwyr am unrhyw gostau teithio ayyb pan yn mynychu cyfarfodydd ar ran y Cyngor. Nodwyd y cydnabyddiaeth a oedd yn orfodol, y taliad costau ychwanegol a chostau gofal. Atgoffwyd y cynghorwyr fod angen iddynt hysbysu'r Cyngor drwy lythyr os nad oeddynt yn dymuno derbyn y taliadau penodol yma.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

c) Taliadau

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
1) Cyflog a chostau'r clerc (Ionawr i Fawrth) - £327.44
2) CTHEM (TWE) - £63.60
3) Un Llais Cymru (tal aelodaeth) – £82
4) Neuadd y Parc (llogi) - £60
5) Neuadd y Maesywaen (llogi) - £80
6) Garn Bach Tryweryn (Cyfraniad Cynllun Bioamrywiaeth) - £50

ch) Ceisiadau Ariannol.

Cytunwyd i gyfrannu fel y ganlyn:-

| | |
|---|---|
| 1) Neuadd Y Parc | £150 (Euros Puw yn datgan buddiant) |
| 2) Neuadd Maesywaen | £150 |
| 3) Cylch Meithrin Garn Bach Tryweryn | £150 |
| 4) Ysgol Bro Tryweryn | £150 |
| 5) Cronfa Ysgol Godre'r Berwyn | £75 |
| 6) Sioe Ardal Maesywaen | £50 (Rhys Jones yn datgan buddiant) |
| 7) CFFI Meirionnydd | £125 |
| 8) Eisteddfod Urdd Cylch Meirionnydd | £25 |
| 9) Cantref | £25 |
| 10) Ambiwlans Awyr Cymru | £50 |
| 11) Tŷ'r Eos | £50 |
| 12) Tŷ Gobaith | £25 |
| 13) Macmillan | £25 |
| 14) Pwyllgor Chwaraeon Parc | £50 |
| 15) Llen y Llannau | £25 |
| 16) Theatr Derek Williams | £50 |
| 17) Marie Curie | £25 |

Wrth drafod y swm o arian tu cefn, cytunwyd i gadw £2,000 o'r arian ar gyfer y posibilrwydd fydd angen adnewyddu'r llochesi bws yn y blynyddoedd nesaf.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Eglurodd Jean Roberts ei ddymuniad i ymddeol o'r Cyngor. Gan nad oedd posib cael perswad arni i ail ystyried diolchwyd iddi am ei ymroddiad i'r Cyngor dros y blynyddoedd. Gofynnwyd i'r clerc hysbysu Cyngor Gwynedd a chymryd y camau priodol ar gyfer ethol aelod newydd.

b) Cytunwyd i anfon y cwynion isod i'r adrannau perthnasol.

i) Y ffordd ger Groeslon, Maesywaen angen sylw.
ii) Cais i Gyngor Gwynedd ddod a'r peiriant ysgubo ar hyd y ffordd o Lanycil i gyfeiriad pentref Parc.
iii) Gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu a Chyngor Gwynedd i holi pryd fyddai'r arwydd 'Dim cerbydau mawr' trwy'r pentref yn cael ei osod.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mai 14eg am 8.00 y.h. yn Neuadd Maesywaen.**



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….